Yr Englyn: Hedd Wyn

Rhaid dweud mai cystadleuaeth wan oedd hon. Chwech fu'n cystadlu, ond y safon oedd yn siomedig.

Gwallgof wallgofrwydd: Rhywun sy'n newydd i'r grefft o gynganeddu sydd yma. Y mae ganddo dair prif-odl (y mae un ohonyn nhw yn y cyrch). Y mae'r drydedd linell yn gywir yn gynganeddol, ond mae angen treiglo ar ô 'Awdl', ac mae hi hefyd sillaf yn rhy hir. Hefyd mae'r ddwy linell olaf, yr esgyll (cwpled o gywydd i fod), ill dwy yn gorffen yn ddi-acen.

Dal i lefaru: Yn anffodus, roedd y bardd hwn wedi dewis odl ddigon anodd. Oherwydd hynny, mae rhywun yn synhwyro iddo fynd at ei Odliadur am gymorth ac oddi yno yn syth at ei eiriadur wedyn! Mae yna adeiladu ar y weledigaeth a gafodd, ond nid yw wedi taro deuddeg yn llwyr y tro hwn.

Gellilydan: Y mae tipyn o gymysgedd yn yr englyn hwn. Mae'n agor gyda'i fersiwn ei hun o un o linellau R.Williams Parry wrht ddweud, 'Y "bardd trist" o dan "bridd trwm"', ac yna mae'r esgyll yn dweud 'Heno, dan wres pliwtoniwm/Y cwyd 'rhen leuad o'r cwm. Y mae'r gyfeiriadaeth i gyd yn ddigon amlwg drwy'r englyn, ond nid oes dim sy'n clymu'r paladr a'r esgyll wrth ei gilydd.

Ceiro: Englyn digon taclus nad yw'n arwain at unrhyw uchafbwynt mewn gwirionedd. Byddai cryfach cynghanedd i gloi wedi bod yn werthfawr yma.

Illtud: Rwy'n teimlo fod hwn bron â bod yn englyn da. Y mae yna ymdrech lew i adeiladu at uchafbwynt, ond, rywsut, nid yw'n llwyddo i gyrraedd yr uchafbwynt hwnnw. I mi, mae yna ryw chwarae â geiriau yn y llinell olaf sy'n peri siom. Hefyd, y mae'n gadael un cwestiwn heb ei ateb – pryd yn union oedd yr 'hedd a fu' yna?

Al Yamamah: Y mae'r ffug-enw yn awgrymog, oherwydd yn Al Yamamah y bu i Brydain a Saudi Arabia arwyddo cytundeb mawr i werthu arfau. Mae'r bardd yn mynnu mai di-werth oedd aberth Hedd Wyn a'r miliynau eraill ym mhob rhyfel gan mai gwneud elw yw prif reswm pob rhyfel, a chan fod rhai bob amser yn elwa, ni fydd byth derfyn ar ryfeloedd. Rwy'n hoffi'r defnydd o Ellis reit ar y diwedd, oherwydd mae'n gwneud yr englyn yn destunol mewn cystadleuaeth fel hon! Ond hefyd mae'n personoli pob un farwolaeth drwy gyfarch yr unigolyn, Hedd Wyn, wrth gwrs, yn yr achos hwn.

Dafydd J. Pritchard